# Gosod Proses Ddilysu Aml-ffactor (MFA) ar gyfer Cyfrif Microsoft

Byddwch wedi cael gwybod gan yr adran Technoleg a Systemau Gwybodaeth am broses dilysu diogelwch ychwanegol sydd wedi'i hychwanegu at eich cyfrif Microsoft gan y Drindod Dewi Sant.

### Beth mae hynny'n ei olygu i mi?

Mae'n golygu bod y Drindod Dewi Sant yn cymryd camau ychwanegol i wneud yn siŵr mai chi ydych chi mewn gwirionedd wrth i chi fewngofnodi. Gwneir hyn trwy gyfuniad o'ch **cyfeiriad e-bost**, eich **cyfrinair**, a **dyfais** neu **ffôn symudol.** Os nad oes gennych chi ffôn symudol gwaith, rydym yn argymell eich bod yn defnyddio ffôn symudol personol.


### Pam mae ei angen arnaf?

Mae dilysu aml-ffactor yn fwy diogel na chyfrinair yn unig oherwydd mae'n dibynnu ar ddau fath o ddilysu: rhywbeth rydych chi'n ei wybod (cyfrinair) a rhywbeth sydd gennych chi wrth law (ffôn symudol neu ddyfais llechen).


### Sut mae cwblhau'r broses osod?

1. Mewngofnodwch i'ch cyfrif Microsoft 365 gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost Prifysgol a'ch cyfrinair trwy fynd i www.outlook.com/uwtsd.ac.uk

2. Yna dylech weld sgrîn yn nodi **More information required.** Cliciwch **Next** pan welwch chi'r sgrîn hon



3. Bydd y sgrîn nesaf yn gofyn i chi lawrlwytho ap **Microsoft Authenticator**




4. Ar eich ffôn symudol, lawrlwythwch ap **Microsoft Authenticator** – gweler yr opsiynau isod. Mae'r ap ar gael ar Ffonau Clyfar Apple neu Android yn unig.


***Os nad oes gennych ddyfais symudol i osod yr ap arno, neu os byddai'n well gennych beidio â gosod yr ap ar eich dyfais bersonol, cliciwch ar y ddolen "I want to setup a different method" ar waelod y sgrîn uchod a neidio i bwynt 13 isod.***

- ***Dyfais Android*** – Ar eich dyfais Android, ewch i Google Play i lawrlwytho a gosod ap Microsoft Authenticator.


- ***Apple iOS*** – Ar eich dyfais Apple iOS, ewch i'r App Store i lawrlwytho a gosod ap Microsoft Authenticator.

5. Wedi i chi osod yr ap ar eich dyfais symudol, ewch yn ôl at eich Gliniadur/Cyfrifiadur Personol a phwyso **Next** ar y sgrîn uchod


6. Yna dylech weld y sgrîn ganlynol yn gofyn i chi sefydlu eich cyfrif. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar-lein. Cliciwch **Next**





7. Agorwch ap Microsoft Authenticator ar eich Ffôn/dyfais Symudol a thapio **Add account**




8. Yna dewiswch **Work or school account**




9. Ar eich ffôn symudol, gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu mynediad i'ch camera (os gofynnir) ac yna pwyntiwch gamera eich ffôn symudol at sgrîn eich Gliniadur/ Cyfrifiadur Personol i sganio'r cod QR (gweler yr enghraifft isod).





10. Ar eich dyfais symudol, gofynnir i chi gadarnhau'r dilysiad. Ymatebwch i'r cais dilysu ar eich dyfais symudol drwy glicio **Approve**





11. Yna fe welwch y sgrin ganlynol ar eich cyfrifiadur, cliciwch **Next**




12. Yna fe welwch y sgrîn ganlynol sy'n cymeradwyo mewngofnodi. Yn syml cliciwch **done** i gwblhau'r broses osod.





13. Os nad oes gennych ddyfais symudol i osod yr ap arno, neu os byddai'n well gennych beidio â gosod yr ap ar eich dyfais bersonol, gallwch ddewis o blith yr opsiynau canlynol:
    a. **Text me a code.** Anfonir neges destun SMS atoch gyda chod dilysu i'ch ffôn symudol.
    b. **Call me.** Byddwch yn cael galwad ffôn awtomataidd i'ch rhif ffôn dewisol er mwyn dilysu.
14. I ddewis dull gwahanol, cliciwch **I want to set up a different method,** a dewis **Phone**





15. I ddewis **Text me a code**, rhowch **rif eich ffôn symudol** a chlicio **Next.** Os byddai'n well gennych ddewis **Call me**, neidiwch i bwynt 19 isod.




16. Anfonir **cod 6 digid** i'ch ffôn symudol dewisol. Teipiwch y cod yn y man priodol ar eich cyfrifiadur a chlicio **Next**.





17. Byddwch yn cael cadarnhad bod eich ffôn wedi'i gofrestru'n llwyddiannus.





18. Cliciwch **Done** i gwblhau'r broses osod.





19. I ddilysu trwy alwad ffôn (**Phone call verification)**, dewiswch **Call me** ac yna clicio **Next**





20. Byddwch yn cael galwad ffôn awtomataidd i'r rhif a roddwyd gennych.




21. Atebwch yr alwad ffôn. Bydd llais awtomataidd yn gofyn i chi glicio'r **botwm punt (£)** i gymeradwyo'r dilysiad. Pwyswch y **botwm hash (#)** ar fysellfwrdd eich ffôn symudol i gwblhau'r broses osod.




22. Cliciwch **Done** i gwblhau'r broses osod.




**Eisiau newid eich gosodiad?**

Os byddai'n well gennych ddefnyddio dull dilysu gwahanol neu ychwanegu opsiynau ychwanegol, yna mae hyn yn bosibl.

1. Ewch i https://aka.ms/setupsecurityinfo ac fe welwch yr isod:

2. O dan **Default Sign-in Method** – gallwch glicio ar **Change** ac yna dewis y dull cysylltu yr ydych yn ei ffafrio o'r gwymplen

3. I ychwanegu at yr opsiynau hyn cliciwch ar **Add method**, mae hyn yn caniatáu dulliau eraill i gadarnhau pwy ydych yn hytrach nag ap Microsoft Authenticator.


4. Cliciwch **Save** – rydych wedi cwblhau'r broses osod!

**Defnyddio Proses Ddilysu Aml-ffactor**


Wrth fewngofnodi i wasanaethau a rhaglenni Microsoft (Outlook, Skype for Business, Teams) ar-lein (e.e. ar yr hwb ar-lein neu Microsoft Office ar-lein), gofynnir i chi gymeradwyo unrhyw geisiadau newydd i fewngofnodi (**Approve sign in request**).

*Sylwch y bydd y negeseuon isod yn amrywio yn ôl eich dull rhagosodedig o fewngofnodi. Mae'r isod yn seiliedig ar ddefnyddio ap Microsoft Authenticator sef yr hyn a argymhellir gennym.*

*Os byddwch yn clicio'r blwch ticio **Don't ask again for 7 days**, ni ofynnir i chi ailddilysu pwy ydych am 7 diwrnod ar gyfer rhaglenni Microsoft.*




Anfonir hysbysiad i'ch dyfais symudol.




Wedi i chi agor Microsoft Authenticator gofynnir i chi gymeradwyo'r cais, **Approve**.



**Cwestiynau Cyffredin**

**Pan fyddaf yn cael dyfais symudol newydd yn lle'r ddyfais gofrestredig sy'n derbyn fy nghodau neu geisiadau dilysu, beth sydd angen i mi ei wneud?**


Mae angen i chi ddiweddaru eich gwybodaeth ddiogelwch, sydd ar gael yma. Os byddwch yn dilyn ein hargymhelliad ac yn defnyddio dull yr ap symudol, bydd hefyd angen i chi osod ap Microsoft Authenticator ar eich dyfais newydd a'i ffurfweddu.


**Doeddwn i ddim yn sylweddoli y byddai angen i mi sganio cod QR yn ystod y broses osod. Dydw i ddim yn gallu gwneud hyn, beth ddylwn i wneud?**

O dan y cod QR, fe welwch god ac URL y gallwch ei gopïo a'i ludo yn ap Microsoft Authenticator i gwblhau'r broses osod. Ar y sgrin sganio cod QR yn yr ap, dewiswch yr opsiwn '**or enter code manually**' i gyrraedd y dudalen lle dylech ludo'r wybodaeth hon, yna cliciwch **Finish**.

**A ofynnir i mi fewngofnodi i ap Outlook ar fy nyfais symudol?**

Os oes gennych raglenni Microsoft megis Outlook, Teams neu Office 365 wedi'u gosod ar eich Dyfais Symudol neu Lechen, gofynnir i chi wirio pwy ydych. Bydd neges yn ymddangos ar eich ffôn yn gofyn i chi gymeradwyo'r cais i fewngofnodi, trwy glicio **Approve**.




**Rhagor o wybodaeth**

Mae rhagor am MFA ar gael ar ein gwefan www.uwtsd.ac.uk/mfa.

Os cewch unrhyw broblemau, cysylltwch â'r Ddesg Wasanaeth TG ar 0300 500 5055 neu ewch i https://webhelp.uwtsd.ac.uk i gyflwyno cais trwy docyn i'r Ddesg Wasanaeth TG.